

# Arfer da wrth bresgripsiynu a rheoli meddyginiaethau a dyfeisiau

1 Yn *Arfer meddygol da* (2013)<sup>1</sup> rydym yn dweud:

- 12 Rhaid i chi sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r cyfreithiau a'r codau ymarfer diweddaraf sy'n berthnasol i'ch gwaith, a chydymffurfio â nhw.
- 14 Rhaid i chi gydnabod a gweithio o fewn cyfyngiadau eich cymhwysra.
- 16 Wrth ddarparu gofal clinigol, rhaid i chi:
  - a bresgripsiynu cyffuriau neu driniaeth, gan gynnwys presgripsiynau amlroddadwy, dim ond pan fydd gennych wybodaeth ddigonol am iechyd y claf, a phan fyddwch yn fodlon bod y cyffuriau neu'r driniaeth yn diwallu anghenion y claf.
  - b darparu triniaethau effeithiol wedi'u seilio ar y dystiolaeth orau sydd ar gael.
  - f sicrhau bod y gofal neu'r driniaeth y byddwch yn ei darparu ar gyfer pob claf yn cyd-fynd gydag unrhyw driniaethau eraill y mae'r claf yn eu cael, gan gynnwys (pan fo modd) meddyginiaethau dros y cownter y maent yn eu presgripsiynu ar eu cyfer eu hunain

- 18 Rhaid i chi wneud defnydd da o'r adnoddau sydd ar gael i chi.
- 19 Rhaid i'r dogfennau y byddwch yn eu paratoi (gan gynnwys cofnodion clinigol) er mwyn gwneud cofnod ffurfiol o'ch gwaith fod yn eglur, yn fanwl ac yn ddarllenadwy. Dylech sicrhau eich bod yn llunio cofnodion ar yr un pryd â'r digwyddiadau yr ydych yn eu cofnodi, neu cyn gynted ag y bo modd wedi hynny.
- 21 Dylai cofnodion clinigol gynnwys:
  - a canfyddiadau clinigol perthnasol
  - b y penderfyniadau a wnaethpwyd a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt, a'r sawl sy'n gwneud y penderfyniadau ac sy'n cytuno i'r camau gweithredu
  - c y wybodaeth a roddwyd i gleifion
  - d y cyffuriau a bresgripsiynwyd neu archwiliad neu driniaeth arall
  - e pwy sy'n gwneud y cofnod a phryd.

<sup>1</sup> Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Arfer meddygol da* Llundain, Cyngor Meddygol Cyffredinol, y mae ar gael trwy droi at [www.gmc-uk.org/gmp](http://www.gmc-uk.org/gmp).

## Am yr arweiniad hwn

---

- 2 Mae'r arweiniad hwn yn darparu cyngor mwy manwl ynghylch sut y mae modd cydymffurfio gyda'r egwyddorion hyn wrth bresgripsiynu a rheoli meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol, gan gynnwys offer.
- 3 Rydych yn gyfrifol am y presgripsiynau y byddwch yn eu llofnodi ac am eich penderfyniadau a'ch gweithredoedd pan fyddwch yn cyflenwi ac yn rhoi meddyginiaethau a dyfeisiau, neu'n awdurdodi neu'n rhoi cyfarwyddyd i eraill wneud hynny. Rhaid i chi fod yn barod i esbonio a chyfiawnhau'ch penderfyniadau a'ch gweithredoedd wrth bresgripsiynu, gweinyddu a rheoli meddyginiaethau.
- 4 Defnyddir y gair 'presgripsiynu' er mwyn disgrifio nifer o weithgareddau cysylltiedig, gan gynnwys cyflenwi meddyginiaethau a ddarparir trwy bresgripsiwn yn unig, presgripsiynu meddyginiaethau, dyfeisiau a gorchuddion ar ran GIG a chynghori cleifion ynghylch y cam o brynu meddyginiaethau dros y cownter a meddyginiaethau eraill. Yn ogystal, mae modd ei ddefnyddio er mwyn disgrifio gwybodaeth ysgrifenedig a ddarparir i gleifion (presgripsiynau gwybodaeth) neu gyngor a roddir. Er bod rhywfaint o'r arweiniad hwn yn arbennig o berthnasol i feddyginiaethau a ddarparir trwy bresgripsiwn yn unig, dylech ei ddilyn mewn perthynas â'r gweithgareddau eraill yr ydych yn eu cyflawni, i'r graddau ag y bo hynny'n berthnasol ac yn briodol. Mae'r arweiniad hwn yn berthnasol i ddyfeisiau meddygol yn ogystal â meddyginiaethau.
- 5 Bydd methiant difrifol neu barhaus i ddilyn yr arweiniad hwn yn peryglu'ch cofrestriad.

## Bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf a phresgripsiynu mewn ffordd ddiogel

---

- 6 Mae *Arfer meddygol da* yn nodi bod yn rhaid i chi gydnabod a gweithio o fewn cyfyngiadau'ch cymhwysra a bod yn rhaid i chi ddiweddarau eich gwybodaeth a'ch sgiliau. Rhaid i chi gynnal a datblygu gwybodaeth a sgiliau ym maes ffarmacoleg a therapiwteg, yn ogystal â phresgripsiynu a rheoli meddyginiaethau, y maent yn berthnasol i'ch rôl a'ch arfer wrth bresgripsiynu.
- 7 Dylech ddefnyddio systemau electronig a systemau eraill sy'n gallu gwella diogelwch eich gwaith presgripsiynu, er enghraifft, trwy amlygu cysylltiadau ac alergeddau a thrwy sicrhau cysondeb a chydweiddoldeb meddyginiaethau sy'n cael eu presgripsiynu, eu cyflenwi a'u rhoi. Mae Diweddariad ynghylch Diogelwch Cyffuriau yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) a System Rhybuddio Ganolog GIG yn darparu cyngor a gwybodaeth er mwyn cynorthwyo'r defnydd mwy diogel o feddyginiaethau y maent yn addas i'ch arfer ac er mwyn eich hysbysu o wybodaeth ynghylch diogelwch y meddyginiaethau y byddwch yn eu presgripsiynu. Mae gan y Lyfrgell electronig Genedlaethol am Feddyginiaethau wybodaeth helaeth ynghylch y defnydd diogel, effeithiol ac effeithlon o feddyginiaethau. Mae'r Ganolfan Bresgripsiynu Genedlaethol (y mae bellach yn rhan o'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE)) yn cyhoeddi amrediad o ddeunyddiau er mwyn eich helpu i wella diogelwch ac effeithiolrwydd clinigol eich gweithgarwch presgripsiynu, ynghyd â pha mor gost-effeithiol ydyw. Mae'r Compendiwm Meddyginiaethau electronig yn rhestru Crynodebau o Nodweddion Cynhyrchion a Thafleuni Gwybodaeth ar gyfer Cleifion.
- 8 Os nad ydych yn siŵr ynghylch cysylltiadau neu agweddau eraill ar bresgripsiynu a rheoli meddyginiaethau, dylech geisio cyngor cydweithwyr profiadol, gan gynnwys fferyllwyr, cynghorwyr presgripsiynu a ffarmacolegwyr clinigol.

- 9 Rhaid i chi fod yn gyfarwydd gyda'r arweiniad yn Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain (BNF) a Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain i Blant (BNFC), sy'n cynnwys gwybodaeth hanfodol er mwyn eich helpu i bresgripsiynu, monitro, cyflenwi a rhoi meddyginiaethau.
- 10 Dylech ddilyn y cyngor yn BNF ynghylch ysgrifennu presgripsiynau a sicrhau bod eich presgripsiynau a'ch gorchmynion yn eglur, yn unol â'r gofynion statudol perthnasol, gan nodi eich enw mewn ffordd eglur.<sup>2</sup> Yn ogystal, dylech ystyried cynnwys arwyddion clinigol<sup>3</sup> yn eich presgripsiynau.
- 11 Dylech ystyried y canllawiau clinigol a gyhoeddir gan:
  - a NICE (Lloegr)
  - b Consortiwm Meddyginiaethau yr Alban a Health Improvement Scotland (gan gynnwys Rhwydwaith Canllawiau Rhyng-golegol yr Alban) (Yr Alban)
  - c Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd (Gogledd Iwerddon)
  - d Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan (Cymru)
  - e colegau meddygol brenhinol a ffynonellau awdurdodol eraill canllawiau clinigol ar gyfer meysydd arbenigol penodol.
- 12 Dylech sicrhau bod unrhyw un y byddwch yn dirprwyo cyfrifoldeb iddynt dros roi meddyginiaethau o fewn eich arfer chi yn

gymwys i gyflawni'r hyn yr ydych yn gofyn iddynt ei gyflawni. Mae modd cael cyngor ynghylch hyfforddiant ar gyfer staff cymorth rhoi gan y Cyngor Fferyllol Cyffredinol.

- 13 Dylech sicrhau bod unrhyw un y byddwch yn dirprwyo'r cyfrifoldeb iddynt dros roi meddyginiaethau yn gymwys i gyflawni'r hyn y byddwch yn gofyn iddynt ei gyflawni.<sup>4</sup>

## Angen a gwrthrychedd

- 14 Ni ddylech bresgripsiynu meddyginiaethau oni bai eich bod yn meddu ar wybodaeth ddigonol ynghylch iechyd y claf, a'ch bod yn fodlon eu bod yn bodloni anghenion y claf.

15 Yn *Caniatâd: cleifion a meddygon yn gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd*,<sup>5</sup> rydym yn dweud:

- 5d Os bydd claf yn gofyn am driniaeth na fyddai o fudd iddynt yn gyffredinol ym marn y meddyg, dylai'r meddyg drafod y materion gyda'r claf, gan ystyried y rhesymau dros eu cais. Ar ôl cynnal trafodaeth ynghylch y mater, os bydd y meddyg o'r farn o hyd na fyddai'r driniaeth o fudd cyffredinol i'r claf, ni fydd yn rhaid iddynt ddarparu'r driniaeth. Ond dylent esbonio eu rhesymau dros wneud hynny i'r claf, gan esbonio unrhyw ddewisiadau eraill sydd ar gael, gan gynnwys y dewis i geisio ail farn.

<sup>2</sup> Mae modd defnyddio gwasanaethau presgripsiynu electronig hefyd. Yn Lloegr, mae modd anfon presgripsiynau i fferyllfa mewn ffordd electronig; yng Nghymru a'r Alban, cedwir gwybodaeth mewn cod bar ar bresgripsiwn papur. Am ragor o fanylion, gweler: *Get Started with EPS – Health and social Care information Centre*; *Prescriptions electronically – Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru*; *Electronic Transfer of Prescriptions (ETP)*(pdf) – Llywodraeth yr Alban.

<sup>3</sup> Trowch at [www.clinicalindications.com](http://www.clinicalindications.com).

<sup>4</sup> Gweler yr arweiniad esboniadol ynghylch *Dirprwyo a chyfeirio* (2013).

<sup>5</sup> Cyngor Meddygol Cyffredinol (2008) *Caniatâd: cleifion a meddygon yn gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd* Llundain, Cyngor Meddygol Cyffredinol, y mae ar gael trwy droi at [www.gmc-uk.org/consent](http://www.gmc-uk.org/consent).

**16** Ni ddylech bresgripsiynu meddyginiaethau er eich hwylustod chi neu er hwylustod gweithwyr iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol eraill (er enghraifft, y sawl y maent yn gofalu am gleifion y mae ganddynt ddementia mewn cartrefi gofal<sup>6</sup>).

### Presgripsiynu ar gyfer eich hun neu'r rhai y maent yn agos i chi

**17** Pryd bynnag y bo modd, rhaid i chi osgoi presgripsiynu ar gyfer eich hun neu ar gyfer unrhyw un y mae gennych chi berthynas bersonol agos gyda nhw.

**18** Mae meddyginiaethau rheoledig yn creu peryglon penodol, y maent yn gysylltiedig gyda chamddefnyddio cyffuriau, dibyniaeth a chamymddwyn o bryd i'w gilydd. Ni ddylech bresgripsiynu meddyginiaeth reoledig ar eich cyfer chi neu ar gyfer rhywun agos i chi oni bai:

- a** nad oes unrhyw unigolyn arall y mae ganddynt yr hawl gyfreithiol i bresgripsiynu ar gael er mwyn asesu a phresgripsiynu, heb i hynny arwain at oedi a fyddai'n rhoi eich bywyd chi neu'ch iechyd chi neu fywyd neu iechyd y claf mewn perygl, neu achosi poen neu ofid annerbyniol, ac
- b** mae angen y driniaeth ar unwaith er mwyn:
  - i** achub bywyd
  - ii** osgoi iechyd rhywun rhag gwaethygu mewn ffordd ddifrifol, neu
  - iii** leddfu poen neu ofid nad oes modd ei reoli fel arall.

**19** Os byddwch yn presgripsiynu ar gyfer eich hun neu rywun agos i chi, rhaid i chi:

- a** greu cofnod eglur ar yr un pryd neu cyn gynted ag y bo modd ar ôl hynny. Dylai'r cofnod gynnwys eich perthynas gyda'r claf (pan fo hynny'n berthnasol) a'r rheswm pam y bu angen i chi bresgripsiynu.
- b** dweud wrth eich meddyg teulu chi neu feddyg teulu y claf (ac eraill sy'n eich trin chi neu'r claf, pan fo hynny'n berthnasol) pa feddyginiaethau yr ydych wedi eu presgripsiynu ac unrhyw wybodaeth arall sy'n angenrheidiol ar gyfer gofal parhaus, oni bai (yn achos presgripsiynu ar gyfer rhywun sy'n agos i chi) eu bod yn gwrthwynebu.

**20** Yn *Caniatâd: cleifion a meddygon yn gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd*,<sup>2</sup> rydym yn dweud:

- 3 Er mwyn i berthynas rhwng meddyg a chlaf fod yn effeithiol, dylai fod yn bartneriaeth wedi'i seilio ar onestrwydd, ymddiriedaeth a chyfathrebu da. Mae gan bob unigolyn rôl i'w gyflawni wrth wneud penderfyniadau ynghylch triniaeth neu ofal.

### Caniatâd

**21** Gyda'r claf,<sup>7</sup> dylech gynnal asesiad o'u cyflwr cyn penderfynu presgripsiynu meddyginiaeth. Rhaid bod gennych chi wybodaeth ddigonol am yr hanes neu dylech ofyn am wybodaeth ddigonol am yr hanes, gan gynnwys:

<sup>6</sup> Gweler *The use of antipsychotic medication for people with dementia: Time for action* (Adran Iechyd, 2009), a oedd yn adrodd bod 'tua 180,000 o bobl y mae ganddynt ddementia yn cael eu trin gan ddefnyddio meddyginiaeth gwrth-seicotig ar draws y wlad bob blwyddyn ... mae defnydd ar y lefel hon yn cyfateb â 1,800 o farwolaethau ychwanegol a 1,620 o ddigwyddiadau niweidiol serebro-fasgwlaidd ychwanegol, y gallai oddeutu hanner ohonynt fod yn ddifrifol, bob blwyddyn', a *clinical guideline 42: Dementia* gan NICE. Mae gwefan y Ganolfan Bresgripsiynu Genedlaethol ([www.npc.nhs.uk](http://www.npc.nhs.uk)) a'r ddogfen a gyhoeddwyd ar y cyd rhwng Sefydliad GIG a Dementia Action Alliance sef *Call to action: the use of antipsychotic drugs for people with dementia* yn cynnwys canllawiau, astudiaethau achos a deunyddiau eraill hefyd er mwyn cynorthwyo arfer da wrth bresgripsiynu, ynghyd â strategaethau gofal amgen ar gyfer cleifion y mae ganddynt ddementia.

<sup>7</sup> neu, pan fo hynny'n briodol, cleifion neu ofalwyr y mae ganddynt yr awdurdod i wneud penderfyniad ar ran cleifion. Mae modd presgripsiynu meddyginiaethau heb sicrhau caniatâd os yw hyn yn debygol o fod o fudd cyffredinol i oedolion nad ydynt yn meddu ar alluedd, neu os yw'n cyd-fynd â deddfwriaeth iechyd meddwl.

- a unrhyw adweithiau niweidiol blaenorol i feddyginiaethau
  - b defnydd o feddyginiaethau eraill yn ddiweddar, gan gynnwys meddyginiaethau nad oes angen presgripsiwn er mwyn eu cael a meddyginiaethau llysieuol, cyffuriau anghyfreithlon a meddyginiaethau a brynir ar-lein, a
  - c chyflyrau meddygol eraill.
- 22** Dylech annog eich cleifion i fod yn agored gyda chi ynghylch eu defnydd o feddyginiaethau amgen, sylweddau anghyfreithlon a meddyginiaethau a sicrhawyd ar-lein, yn ogystal â chael gwybod a ydynt wedi cymryd meddyginiaethau a bresgripsiynwyd yn unol â'r cyfarwyddyd a roddwyd yn y gorffennol.
- 23** Dylech nodi achos tebygol cyflwr y claf a pha driniaethau y maent yn debygol o gynnig budd cyffredinol iddynt.
- 24** Dylech ddod i gytundeb gyda'r claf ynghylch y driniaeth arfaethedig,<sup>8</sup> gan esbonio:
- a y manteision, y risgiau a'r beichiau tebygol, gan gynnwys sgîl-ffeithiau difrifol a chyffredin
  - b yr hyn i'w wneud os bydd sgîl-ffaith yn digwydd neu os bydd y cyflwr yn dychwelyd
  - c sut a phryd y dylid cymryd y feddyginiaeth a sut i addasu'r dos os bydd angen gwneud hynny, neu sut i ddefnyddio dyfais feddygol
  - d pa mor hir y mae'r driniaeth yn debygol o bara
  - e trefniadau ar gyfer monitro, ymateb dilynol ac adolygu, gan gynnwys ymgynghori pellach, profion gwaed ac archwiliadau eraill, prosesau er mwyn addasu'r math o feddyginiaeth neu'r dos, ac ar gyfer rhoi presgripsiynau amlroddadwy.
- 25** Bydd swm y wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i bob claf yn amrywio yn unol â natur eu cyflwr, y risgiau a'r sgîl-ffeithiau posibl ac anghenion a dymuniadau'r claf. Dylech sicrhau bod y claf wedi deall y wybodaeth, a'u hannog i ofyn cwestiynau er mwyn egluro unrhyw bryderon neu ansicrwydd. Dylech ystyried manteision gwybodaeth ysgrifenedig, gwybodaeth mewn ieithoedd eraill a chymhorthion eraill ar gyfer cleifion y mae ganddynt anabledau, er mwyn eu helpu i ddeall ac ystyried gwybodaeth yn eu hamser eu hunain ac i gadw gafael ar y wybodaeth y gwnaethoch ei rhoi iddynt.
- 26** Yn ogystal, dylech ddarparu gwybodaeth i ofalwyr cleifion ynghylch y meddyginiaethau yr ydych yn eu presgripsiynu, naill ai gyda chaniatâd y claf neu, os na fydd y claf yn meddu ar alluedd i roi eu caniatâd, os yw hynny er eu budd pennaf.
- 27** Weithiau, oherwydd bod amser yn brin, mae'n anodd rhoi cymaint o wybodaeth i gleifion ag y byddech chi neu nhw yn ei hoffi. Er mwyn helpu gyda hyn, dylech ystyried y rôl y gallai aelodau eraill y tîm gofal iechyd, gan gynnwys fferyllwyr, ei gyflawni. Gall fferyllwyr gynnal adolygiadau o feddyginiaethau, esbonio sut i gymryd meddyginiaethau a chynnig cyngor ynghylch cysylltiadau a sgîl-ffeithiau. Dylech weithio gyda fferyllwyr yn eich sefydliad a/neu'r ardal leol er mwyn osgoi'r risg o orlethu neu ddrysau cleifion gyda gormod o wybodaeth neu wybodaeth anghyson.
- 28** Yn ogystal, dylech gyfeirio cleifion at y wybodaeth mewn taflenni gwybodaeth i gleifion (TGG) a ffynonellau gwybodaeth dibynadwy eraill.<sup>9</sup> Mae TGG yn atodion defnyddiol i'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i gleifion am eu meddyginiaethau, ond nid ydynt yn disodli'r wybodaeth honno.

<sup>8</sup> Mae nifer o gymhorthion ar gael er mwyn helpu cleifion i wneud penderfyniadau ar wefan y Ganolfan Bresgripsiynu Genedlaethol ([www.npc.nhs.uk](http://www.npc.nhs.uk)).

<sup>9</sup> Dewisiadau GIG a gwybodaeth sy'n cynnwys marc ansawdd Y Safon Gwybodaeth, er enghraifft.

**29** Ni fydd rhai cleifion yn cymryd meddyginiaethau sy'n cael eu presgripsiynu ar eu cyfer, neu ni fyddant yn dilyn y cyfarwyddiadau ynghylch y dos y dylid ei gymryd neu'r amser y dylid cymryd y meddyginiaethau. Dylech geisio deall y rhesymau dros hyn, gan roi sylw iddynt trwy gynnig gwybodaeth a chysur, a thrwy drafod gyda'r claf er mwyn cytuno ar gwrs triniaeth priodol y mae modd iddynt gydymffurfio ag ef ac y maent yn fodlon cydymffurfio ag ef.<sup>10</sup>

## Rhannu gwybodaeth gyda chydweithwyr

**30** Rhaid i chi gyfrannu at y broses ddiogel o drosglwyddo cleifion rhwng darparwyr gofal iechyd a rhwng darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi rannu'r holl wybodaeth berthnasol gyda chydweithwyr y maent yn ymwneud gyda'r gofal ar gyfer eich claf o fewn y tîm a thu allan y tîm, gan gynnwys adegau pan fyddwch yn trosglwyddo'r gofal pan fyddwch yn mynd oddi ar ddyletswydd, pan fyddwch yn dirprwyo gofal neu'n cyfeirio cleifion at ddarparwyr iechyd neu ofal cymdeithasol eraill. Dylai hyn gynnwys yr holl wybodaeth berthnasol ynghylch eu defnydd o feddyginiaethau eraill ar hyn o bryd neu'n ddiweddar, cyflyrau eraill, alergeddau ac adweithiau niweidiol blaenorol i feddyginiaethau.

**31** Er mwyn sicrhau gofal diogel, mae'n hanfodol bod gwybodaeth ynghylch meddyginiaethau yn mynd gyda'r claf (neu'n eu dilyn yn gyflym, er enghraifft pan fyddant yn mynd i'r ysbyty ar frys) pan fyddant yn trosglwyddo rhwng lleoliadau gofal.<sup>11</sup>

**32** Os byddwch yn presgripsiynu ar gyfer claf, ond nid chi yw eu meddyg teulu, dylech archwilio pa mor gyflawn a manwl yw'r wybodaeth sy'n cyd-fynd gyda chyfeiriad. Pan fydd cyfnod gofal yn

cael ei gwblhau, rhaid i chi sôn wrth feddyg teulu y claf am:

- a** newidiadau i feddyginiaethau'r claf (meddyginiaethau presennol a newidiwyd neu a stopiwyd a meddyginiaethau newydd a gychwynwyd, ynghyd â rhesymau)
- b** hyd y driniaeth y bwriedir ei rhoi
- c** gofynion monitro
- d** unrhyw alergeddau neu adweithiau niweidiol newydd a nodir,<sup>12</sup> oni bai bod y claf yn gwrthwynebu neu os bydd pryderon ynghylch preifatrwydd yn drech na'r ddyletswydd, er enghraifft, mewn clinigau iechyd rhywiol.

**33** Os na fydd claf wedi cael eu cyfeirio atoch gan eu meddyg teulu, dylech gymryd y camau canlynol hefyd:

- a** ystyried a yw'r wybodaeth sydd gennych yn ddigonol ac yn ddigon dibynadwy er mwyn eich galluogi i bresgripsiynu mewn ffordd ddiogel; er enghraifft:
  - i** a oes modd i chi droi at eu cofnodion meddygol neu at wybodaeth ddibynadwy arall ynghylch iechyd y claf a thriniaethau eraill y maent yn eu cael
  - ii** a oes modd i chi ddilysu gwybodaeth bwysig arall trwy archwilio neu gynnal profion
- b** gofyn am ganiatâd y claf i gysylltu â'u meddyg teulu os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch neu gadarnhad o'r wybodaeth sydd gennych cyn presgripsiynu. Os bydd y claf yn gwrthwynebu, dylech

<sup>10</sup> Mae gwefan y Ganolfan Bresgripsiynu Genedlaethol ([www.npc.nhs.uk](http://www.npc.nhs.uk)) yn cynnwys gwybodaeth, canllawiau ac offerynnau er mwyn deall a gwella ymlyniad. Yn ogystal, gweler Canllawiau clinigol CG76 NICE ynghylch ymlyniad at feddyginiaethau.

<sup>11</sup> Gweler *Keeping patients safe when they transfer between care providers – getting the medicines right* (Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, Gorffennaf 2011).

<sup>12</sup> Gweler astudiaeth genedlaethol y Comisiwn Ansawdd Gofal a gynhaliwyd yn 2009, *Managing patients' medicines after discharge from hospital ac EQUIP (Errors – Questioning Undergraduate Impact on Prescribing)* ynghylch dirprwyo cyfrifoldeb dros ysgrifennu crynodebau rhyddhau mewn ffordd amhriodol i staff iau nad ydynt wedi cael hyfforddiant ffarmacoleg digonol neu nad ydynt yn meddu ar wybodaeth ddigonol am y cleifion.



esbonio nad oes modd i chi bresgripsiynu ar eu cyfer, a pha ddewisiadau sydd ar gael iddynt.

- 34** Os mai chi yw meddyg teulu y claf, dylech sicrhau bod newidiadau i feddyginiaethau'r claf (yn dilyn triniaeth mewn ysbyty, er enghraifft) yn cael eu hadolygu a'u cynnwys yng nghofnod y claf yn gyflym. Bydd hyn yn helpu i osgoi cleifion yn cael presgripsiynau amlroddadwy amhriodol, gan leihau'r perygl o gael cysylltiadau niweidiol.<sup>13</sup>

## Rhannu gofal

- 35** Dylid seilio penderfyniadau ynghylch pwy ddylai fod yn gyfrifol am ofal neu driniaeth barhaus ar ôl rhoi'r diagnosis neu'r asesiad cychwynnol, ar sail budd penaf y claf, yn hytrach na'r hyn sy'n gyfleus i chi neu gost y feddyginiaeth a'r gweithgarwch monitro ac ymateb dilynol cysylltiedig.
- 36** Mae rhannu gofal yn gofyn am gytundeb pob parti, gan gynnwys y claf. Mae cyfathrebu effeithiol a chyswllt parhaus rhwng yr holl bartïon i gytundeb rhannu gofal yn hanfodol.

## Presgripsiynu yn unol ag argymhelliad cydweithiwr proffesiynol

- 37** Os byddwch yn presgripsiynu yn unol ag argymhelliad meddyg arall, nyrs neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol, rhaid i chi fodloni'ch hun bod angen y presgripsiwn, ei fod yn briodol i'r claf a'i fod o fewn terfynau'ch cymhwystra.
- 38** Os byddwch yn dirprwyo'r broses o asesu addasrwydd claf i gael meddyginiaeth i rywun arall, rhaid i chi fod yn fodlon bod yr unigolyn y byddwch yn dirprwyo iddynt yn meddu ar y cymwysterau, y profiad, y wybodaeth a'r sgiliau er mwyn cynnal yr asesiad. Rhaid i chi roi digon o wybodaeth iddynt am y claf er mwyn cynnal yr asesiad sy'n ofynnol. Yn ogystal, rhaid i chi sicrhau eu bod yn dilyn y canllawiau ym mharagraffau 21 – 29 ynghylch Caniatâd.

- 39** Yn y ddau achos, byddwch yn gyfrifol am unrhyw bresgripsiwn y byddwch yn ei lofnodi.

## Argymell meddyginiaethau i'w presgripsiynu gan gydweithwyr

- 40** Os byddwch yn argymell bod cydweithiwr, er enghraifft meddyg iau neu feddyg teulu, yn presgripsiynu meddyginiaeth benodol ar gyfer claf, rhaid i chi ystyried eu cymhwystra i wneud hynny. Rhaid i chi fodloni'ch hun eu bod yn meddu ar wybodaeth ddigonol am y claf a'r feddyginiaeth, y profiad (yn enwedig yn achos meddygon iau) a'r wybodaeth i bresgripsiynu. Dylech fod yn fodlon ateb eu cwestiynau a'u cynorthwyo fel arall wrth ofalu am y claf, yn ôl y gofyn.

## Presgripsiynu wrth rannu gofal

- 41** Os ydych yn rhannu'r cyfrifoldeb dros ofal claf gyda chydweithiwr, rhaid i chi fod yn gymwys i arfer eich cyfran chi o'r cyfrifoldeb clinigol. Dylech:
- a** sicrhau eich bod yn wybodus am y meddyginiaethau sy'n cael eu presgripsiynu ar gyfer y claf
  - b** meddu ar y gallu i adnabod sgîl-effeithiau difrifol a niweidiol y maent yn digwydd yn aml
  - c** sicrhau bod trefniadau monitro clinigol priodol mewn grym a bod y claf a'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol dan sylw yn eu deall
  - d** bod yn ymwybodol o'r canllawiau perthnasol diweddaraf ynghylch defnyddio meddyginiaethau ac ynghylch rheoli cyflwr y claf.
- 42** Wrth gynnig trefniant rhannu gofal, gall arbenigwyr gynnig cyngor i feddyg teulu y claf ynghylch pa feddyginiaeth i'w phresgripsiynu. Os byddwch yn argymell meddyginiaeth newydd

<sup>13</sup> Gweler *Medicines Reconciliation: A guide to implementation* (Canolfan Bresgripsiynu Genedlaethol, 2008)

neu feddyginiaeth na chaiff ei phresgripsiynu yn aml, dylech nodi'r dos a'r ffordd o'i rhoi, a chytuno ar brotocol ar gyfer y driniaeth. Dylech gynnig esboniad am y defnydd o feddyginiaethau didrwydded ac unrhyw benderfyniad i wroddi ar ganllawiau awdurdodol neu driniaethau argymelledig, gan ddarparu gwybodaeth ddigonol i'r meddyg teulu ac i'r claf er mwyn gallu rheoli cyflwr y claf mewn ffordd ddiogel.<sup>14</sup>

- 43** Os ydych yn teimlo'n ansicr ynghylch eich cymhwystra i fod yn gyfrifol am ofal parhaus y claf, dylech geisio cyngor neu wybodaeth bellach gan y clinigydd y rhennir y gofal dros y claf gyda nhw, neu gan gydweithiwr profiadol arall. Os na fyddwch yn fodlon o hyd, dylech esbonio hyn i'r clinigydd arall ac i'r claf, gan wneud trefniadau priodol ar gyfer eu gofal parhaus.

## Mynegi pryderon

- 44** Mae camgymeriadau wrth bresgripsiynu a chamgymeriadau gweinyddol yn gyffredin ymhlith meddygon,<sup>15</sup> ond fel arfer, caiff niwed ei osgoi wrth i gydweithwyr proffesiynol ymyrryd cyn y bydd modd i'r camgymeriadau effeithio ar gleifion.
- 45** Rhaid i chi ddiogelu cleifion rhag risgiau niwed yn deillio o gamgymeriadau a wneir gan gydweithwyr wrth bresgripsiynu a rhoi a chamgymeriadau eraill sy'n ymwneud â meddyginiaethau. Dylech gwestiynu unrhyw benderfyniad neu weithredu a allai fod yn anniogel yn eich barn chi.<sup>16</sup> Yn ogystal, dylech ymateb mewn ffordd adeiladol i bryderon a

fynegir gan gydweithwyr, cleifion a gofawyr ynghylch eich arfer chi.

## Adrodd am adweithiau niweidiol i gyffuriau, digwyddiadau niweidiol gyda dyfeisiau meddygol a digwyddiadau eraill y maent yn ymwneud gyda diogelwch cleifion

- 46** Mae modd i weithgarwch arferol a chynnar er mwyn adrodd am adweithiau niweidiol, digwyddiadau ac achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd, y maent yn ymwneud gyda meddyginiaethau a dyfeisiau, ganiatáu i faterion sy'n ymwneud â pherfformiad a systemau gael eu hymchwilio, i broblemau gael eu datrys ac i wersi gael eu dysgu.<sup>17</sup> Rhaid i chi baratoi adroddiadau yn unol â gweithdrefnau llywodraethu clinigol lleol eich cyflogwr neu'ch corff contractio.<sup>18</sup>

- 47** Rhaid i chi hysbysu MHRA ynghylch:

- a** adweithiau niweidiol amheus difrifol i bob meddyginiaeth a phob adwaith i gynhyrchion y maent yn dwyn nod Triongl Du yn BNF ac mewn mannau eraill sy'n defnyddio Cynllun y Cerdyn Melyn.<sup>19</sup>
- b** digwyddiadau niweidiol sy'n cynnwys dyfeisiau meddygol, gan gynnwys y rhai a achosir gan gamgymeriadau dynol y maent yn peryglu neu y mae ganddynt y potensial i beryglu iechyd cleifion, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol neu eraill.<sup>20</sup> Yn ogystal, dylid adrodd y digwyddiadau hyn i'r swyddog cyswllt dros ddyfeisiau meddygol yn eich sefydliad.

<sup>14</sup> Mae modd cael adnoddau ynghylch rhannu gofal gan y Ganolfan Bresgripsiynu Genedlaethol; Midlands Therapeutics Review & Advisory Committee, y mae wedi cynhyrchu 16 o 'Cytundebau Rhannu Gofal Effeithiol' ynghylch amrywiaeth o feddyginiaethau/arwyddion; UK Medicines Information, y mae wedi cyhoeddi nifer o gytundebau/protocolau rhannu gofal; ac mae Ysgol Fferylliaeth Keele yn cyhoeddi Pecyn Cymorth Cytundeb Rhannu Gofal Effeithiol 'er mwyn cynorthwyo gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i ddatblygu eu cytundebau rhannu gofal eu hunain er mwyn cynorthwyo gweithgarwch presgripsiynu y cytunir arno yn lleol'.

<sup>15</sup> Gweler astudiaeth EQUIP (Errors – Questioning Undergraduate Impact on Prescribing) ac Investigating the prevalence and causes of prescribing errors in general practice: The PRACTICE study.

<sup>16</sup> Gweler *Mynegi pryderon am ddiogelwch cleifion a gweithredu yn eu cylch* (2012).

<sup>17</sup> Dylech sicrhau bod y wybodaeth yn ddiennw neu dylech godio'r wybodaeth, neu geisio caniatâd, os yw hynny'n ymarferol, neu droi at ein harweiniad ynghylch cyfrinachedd am ragor o gyngor.

<sup>18</sup> Yn ogystal, rhaid i chi sicrhau bod damweiniau a digwyddiadau peryglus yn cael eu hadrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn unol â *Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 1995*, a bod gweithdrefnau lleol er mwyn adrodd am faterion tebyg a dysgu oddi wrthynt yn cael eu dilyn.

<sup>19</sup> Mae MHRA yn casglu data ynghylch meddyginiaethau trwyddedig a didrwydded a ddarparir trwy bresgripsiwn, meddyginiaethau fferyllol a meddyginiaethau dros y cownter.

<sup>20</sup> Mae modd cael arweiniad pellach ynghylch adrodd gan MHRA: Reporting Adverse Incidents. Dylid adrodd am ddigwyddiadau sy'n ymwneud gyda dyfeisiau meddygol yng Nghymru a Lloegr i MHRA (adrodd digwyddiadau niweidiol). Yng Ngogledd Iwerddon, dylid eu hadrodd i Ganolfan Digwyddiadau Niweidiol Gogledd Iwerddon; ac yn yr Alban, dylid eu hadrodd i drefniant adrodd digwyddiadau ar-lein Cyfleusterau Iechyd yr Alban.



- 48** Dylech ddarparu gwybodaeth i gleifion ynghylch sut y mae modd iddynt adrodd am sgîl-ffeithiau amheus i MHRA yn uniongyrchol.
- 49** Yn ogystal, dylech gymryd y camau canlynol:
- a** sicrhau bod yr holl ddigwyddiadau difrifol ynghylch diogelwch cleifion yn cael eu hadrodd i'r System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu (yng Nghymru a Lloegr), yn enwedig os na chaiff digwyddiadau o'r fath eu hadrodd yn awtomatig trwy gyfrwng trefniadau llywodraethu clinigol lle'r ydych yn gweithio
  - b** pan fo hynny'n briodol, hysbysu meddyg teulu y claf, y fferyllfa a wnaeth gyflenwi'r feddyginiaeth, y swyddog atebol lleol dros gyffuriau rheoledig a chynhyrchwyr meddyginiaethau o adweithiau niweidiol perthnasol i gyffuriau a digwyddiadau'n ymwneud â diogelwch cleifion.
- 50** Dylech ymateb i geisiadau gan yr Uned Ymchwilio Diogelwch Cyffuriau am ddata monitro digwyddiadau presgripsiwn a gwybodaeth ar gyfer astudiaethau ynghylch materion penodol yn ymwneud â diogelwch neu ffarmacowlyliadwraeth.

## Adolygu meddyginiaethau

- 51** Os ydych yn presgripsiynu dan drefniant amlroddadwy neu unigol, rhaid i chi sicrhau bod trefniadau addas mewn grym er mwyn gwneud gwaith monitro, adolygu a gwaith dilynol, gan ystyried anghenion y cleifion ac unrhyw risgiau sy'n deillio o'r meddyginiaethau.
- 52** Pan fyddwch yn adolygu meddyginiaethau claf, dylech ailasesu angen y claf am feddyginiaethau didrwydded (gweler paragraffau 67–70), er enghraifft, cyffuriau gwrthseicotig a ddefnyddir er mwyn trin symptomau seicolegol ac ymddygiadol ymhlith cleifion y mae ganddynt ddementia.<sup>21</sup>

- 53** Bydd adolygu meddyginiaethau yn arbennig o bwysig:
- a** pan allai cleifion fod mewn perygl, er enghraifft, cleifion y maent yn eiddil neu y maent yn dioddef sawl salwch
  - b** pan fydd gan feddyginiaethau sgîl-ffeithiau cyffredin neu y gallent fod yn ddifrifol
  - c** pan roddir presgripsiwn am feddyginiaeth reoledig neu feddyginiaeth arall i glaf, y mae'n gyffredin iddi gael ei chamddefnyddio
  - d** pan fo BNF neu ganllawiau clinigol awdurdodol eraill<sup>22</sup> yn argymhell y dylid cynnal profion gwaed neu weithgarwch monitro arall yn rheolaidd.
- 54** Gall fferyllwyr helpu i wella diogelwch, effeithiolrwydd ac ymlyniad o ran defnydd meddyginiaethau, er enghraifft, trwy gynghori cleifion ynghylch eu meddyginiaethau a thrwy gynnal adolygiadau o feddyginiaethau. Nid yw hyn yn eich rhyddhau chi o'ch dyletswydd i sicrhau bod eich gweithgarwch presgripsiynu a rheoli meddyginiaethau yn briodol. Dylech ystyried a chymryd camau priodol ynghylch gwybodaeth a chynghori gan fferyllwyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill y maent wedi adolygu defnydd cleifion o feddyginiaethau, yn enwedig yn dilyn newidiadau i'w meddyginiaethau neu os byddant yn adrodd am broblemau gyda goddefiad, sgîl-ffeithiau neu ynghylch cymryd meddyginiaethau yn unol â'r cyfarwyddyd a roddwyd.

## Presgripsiynau amlroddadwy a phresgripsiynu dro ar ôl tro

- 55** Rydych chi yn gyfrifol am unrhyw bresgripsiwn y byddwch yn ei lofnodi, gan gynnwys presgripsiynau amlroddadwy ar gyfer meddyginiaethau a roddwyd gan gydweithwyr y tro cyntaf, felly bydd yn rhaid i chi sicrhau bod unrhyw bresgripsiwn amlroddadwy y byddwch

<sup>21</sup> Gweler ôl-nodyn † ar dudalen 3.

<sup>22</sup> Gweler *10 Top Tips for GPs – Strategies for safer prescribing* (Y Ganolfan Bresgripsiynu Genedlaethol, 2011).

yn ei lofnodi yn ddiogel ac yn briodol. Dylech ystyried manteision presgripsiynu dro ar ôl tro er mwyn lleihau'r angen am bresgripsiynau amlroddadwy.

- 56** Yn yr un modd ag unrhyw bresgripsiwn, dylech gytuno gyda'r claf pa feddyginiaethau y maent yn briodol a sut y bydd eu cyflwr yn cael ei reoli, gan gynnwys dyddiad er mwyn eu hadolygu. Dylech nodi mewn ffordd eglur pam bod adolygiadau rheolaidd yn bwysig, gan esbonio i'r claf yr hyn y dylent ei wneud:
- a** os byddant yn dioddef sgîl-effeithiau neu adweithiau niweidiol, neu
  - b** os byddant yn stopio cymryd y meddyginiaethau cyn y dyddiad adolygu y cytunwyd arno (neu os rhoddyd nifer benodedig o bresgripsiynau amlroddadwy),

Rhaid i chi baratoi cofnodion eglur o'r trafodaethau hyn a'ch rhesymau dros roi presgripsiwn amlroddadwy.<sup>23</sup>

- 57** Rhaid i chi deimlo'n fodlon bod gweithdrefnau er mwyn presgripsiynu dro ar ôl tro ac er mwyn rhoi presgripsiynau amlroddadwy yn ddiogel a:
- a** bod y claf cywir yn cael y presgripsiwn cywir
  - b** bod y dos cywir yn cael ei bresgripsiynu, yn enwedig ar gyfer cleifion y mae eu dos yn amrywio yn ystod y driniaeth
  - c** bod cyflwr y claf yn cael ei fonitro, gan ystyried faint o'r feddyginiaeth a ddefnyddir a'i heffeithiau
  - d** dim ond staff y maent yn gymwys i wneud hynny fydd yn paratoi presgripsiynau amlroddadwy i'w hawdurdodi
  - e** bod cleifion y mae angen eu harchwilio neu eu hasesu ymhellach yn cael eu hadolygu gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol priodol

- f** bod unrhyw newidiadau i feddyginiaethau'r claf yn cael eu hadolygu mewn ffordd ddifrifol a'u cynnwys yn eu cofnod.

- 58** Yn ystod pob adolygiad, dylech gadarnhau bod y claf yn cymryd eu meddyginiaethau yn unol â'r cyfarwyddyd a roddwyd, gan gadarnhau bod angen y meddyginiaethau o hyd, eu bod yn effeithiol ac yn cael eu goddef. Gallai hyn fod yn arbennig o bwysig ar ôl i glaf dreulio cyfnod yn yr ysbyty neu wrth wneud newidiadau i feddyginiaethau yn dilyn ymweliad gyda'r ysbyty neu'r cartref. Yn ogystal, dylech ystyried a allai ceisiadau am bresgripsiynau amlroddadwy a gyflwynir yn gynharach neu'n hwyrach na'r disgwyl ddynodi ymlyniad gwael, gan arwain at therapi annigonol neu effeithiau niweidiol.
- 59** Pan fyddwch yn rhoi presgripsiynau amlroddadwy neu'n presgripsiynu dro ar ôl tro, dylech sicrhau bod gweithdrefnau mewn grym er mwyn monitro a yw'r feddyginiaeth yn ddiogel ac yn angenrheidiol ar gyfer y claf o hyd. Dylech gadw cofnod o fferyllwyr y maent yn meddu ar bresgripsiynau rhoi amlroddadwy gwreiddiol, fel bod modd i chi gysylltu â nhw yn ôl yr angen.

### Presgripsiynu o bell dros y ffôn, trwy gyfrwng cyswllt fideo neu ar-lein

- 60** Cyn i chi bresgripsiynu ar gyfer claf dros y ffôn, trwy gyfrwng cyswllt fideo neu ar-lein, rhaid i chi deimlo'n fodlon bod modd i chi wneud asesiad digonol, sefydlu deialog a sicrhau caniatâd y claf yn unol â'r arweiniad ym mharagraffau 20–29.
- 61** Dim ond pan fyddwch yn meddu ar wybodaeth ddigonol am iechyd y claf ac yn teimlo'n fodlon bod y meddyginiaethau yn diwallu anghenion y claf y gallwch bresgripsiynu. Rhaid i chi ystyried:
- a** cyfyngiadau'r cyfrwng yr ydych yn ei ddefnyddio er mwyn cyfathrebu gyda'r claf
  - b** yr angen am archwiliad corfforol neu asesiadau eraill

<sup>23</sup> Gweler *Saving time, helping patients: A good practice guide to quality repeat prescribing* (2004), *Dispensing with repeats: a practical guide to repeat dispensing* (2008) a chanllawiau gwella gwasanaeth ac adnoddau eraill y maent ar gael trwy droi at [www.npc.nhs.uk](http://www.npc.nhs.uk).

- c** a oes modd i chi droi at gofnodion meddygol y claf.
- 62** Rhaid i chi gynnal archwiliad corfforol o gleifion cyn presgripsiynu cynhyrchion meddyginiaethol cosmetig anllawfeddygol megis Botox, Dysport neu Vistabel, neu feddyginiaethau cosmetig eraill i'w chwistrellu. Felly, ni ddylech bresgripsiynu'r meddyginiaethau hyn dros y ffôn, trwy gyfrwng cyswllt fideo neu ar-lein.
- 63** Os ydych yn presgripsiynu ar gyfer claf y maent mewn hosbis neu gartref nyrsio neu gartref gofal, dylech gyfathrebu gyda'r claf (neu, os na fydd hynny'n ymarferol, yr unigolyn sy'n gofalu amdanynt) er mwyn gwneud eich asesiad ac er mwyn darparu'r cyngor a'r wybodaeth angenrheidiol. Dylech sicrhau bod unrhyw gyfarwyddiadau, er enghraifft ynghylch rhoi neu fonitro cyflwr y claf, yn cael eu deall, gan anfon cadarnhad ysgrifenedig cyn gynted ag y bo modd.
- 64** Os na fydd y claf wedi cael eu cyfeirio atoch gan eu meddyg teulu, os na fydd modd i chi droi at eu cofnodion meddygol ac os na fyddwch wedi darparu gofal iddynt wyneb yn wyneb o'r blaen, rhaid i chi gymryd y camau canlynol hefyd:
  - a** rhoi'ch enw ac, os ydych yn presgripsiynu ar-lein, eich rhif CMC
  - b** esbonio sut y bydd yr ymgynghoriad o bell yn gweithio a'r hyn y dylent ei wneud os bydd ganddynt unrhyw bryderon neu gwestiynau
  - c** dilyn y cyngor ym mharagraffau 30-34 ynghylch Rhannu gwybodaeth gyda chydweithwyr.
- 65** Ni ddylech gynllwynio i hysbysebu meddyginiaethau a ddarparir trwy bresgripsiwn yn unig neu feddyginiaethau didrwydded i'r cyhoedd trwy bresgripsiynu trwy gyfrwng gwefannau sy'n torri amodau rheoliadau hysbysebu.<sup>24</sup>
- 66** Os byddwch yn presgripsiynu ar gyfer cleifion y maent mewn gwlad dramor, dylech ystyried sut y byddwch chi neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol lleol yn monitro eu cyflwr. Yn ogystal, dylech ystyried y gwahaniaethau o ran enw trwyddedig cynnyrch, arwyddion a rheolaeth y dos argymelledig. Yn ogystal, efallai y bydd angen i chi ystyried:
  - a** canllawiau MHRA ynghylch gofynion mewnforio/allforio a diogelwch wrth roi,
  - b** a fydd angen yswiriant indemniad ychwanegol arnoch chi
  - c** a fydd angen i chi gofrestru gyda chorff rheoleiddio yn y wlad y bydd y meddyginiaethau sy'n cael eu presgripsiynu yn cael eu rhoi.

## Presgripsiynu meddyginiaethau didrwydded

- 67** Defnyddir y term 'meddyginiaeth didrwydded' er mwyn disgrifio meddyginiaethau a ddefnyddir y tu allan i amodau eu trwydded yn y DU, neu nad ydynt wedi sicrhau trwydded er mwyn eu defnyddio yn y DU.<sup>25</sup> Mae'n gyffredin i feddyginiaethau didrwydded gael eu defnyddio mewn rhai meysydd meddygol megis pediatreg, seiciatreg a gofal lliniarol. Yn ogystal, fe'u defnyddir mewn meysydd meddygol eraill yn llai aml.

<sup>24</sup> Gweler *Rheoliadau Meddyginiaethau (Hysbysebu) 1994 a Rheoliadau Meddyginiaethau (Monitro Hysbysebu) 1994*, y ddau fel y'u diwygiwyd, a *The Blue Guide: Advertising and Promotion of Medicines in the UK* (MHRA, 2005).

<sup>25</sup> Mae'r diffiniad hwn yn seiliedig ar wybodaeth a gyhoeddwyd gan yr MHRA, sef y corff trwyddedu a rheoleiddio ar gyfer cyflenwi a defnyddio meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol. Mae canllawiau MHRA ar gyflenwad a defnydd cyfreithiol meddyginiaethau heb eu trwyddedu wedi'u gosod yng nghyhoeddiad yr MHRA *The supply of unlicensed medicinal products ('specials')*, MHRA Guidance Note 14 sydd ar gael yn [www.mhra.gov.uk/home/groups/is-llic/documents/publication/con413520.pdf](http://www.mhra.gov.uk/home/groups/is-llic/documents/publication/con413520.pdf)

**68** Fel arfer, dylech bresgripsiynu meddyginiaethau trwyddedig yn unol ag amodau eu trwydded. Fodd bynnag, mae modd i chi bresgripsiynu meddyginiaethau didrwydded pan fyddwch yn dod i'r casgliad bod angen gwneud hynny am resymau meddygol, ar sail asesiad o'r claf, er mwyn bodloni anghenion penodol y claf.

**69** Efallai y bydd angen presgripsiynu meddyginiaethau didrwydded:

- a** Nad oes meddyginiaeth drwyddedig addas a fydd yn diwallu anghenion y claf. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):<sup>26</sup>
  - i** pan na cheir meddyginiaeth drwyddedig sy'n berthnasol i'r claf penodol. Er enghraifft, os yw'r claf yn blentyn ac os byddai meddyginiaeth wedi'i thrwyddedu ar gyfer cleifion y maent yn oedolion yn unig, yn bodloni anghenion y plentyn; neu
  - ii** pan na fyddai meddyginiaeth y mae wedi cael ei thrwyddedu i drin cyflwr neu symptom ymhlith plant yn bodloni'r anghenion penodol a aseswyd ar gyfer y claf penodol y maent yn blentyn, ond byddai meddyginiaeth y mae wedi cael ei thrwyddedu ar gyfer yr un cyflwr neu symptom ymhlith oedolion yn gwneud hynny; neu
  - iii** pan na fyddai'r dos penodedig ar gyfer meddyginiaeth drwyddedig yn bodloni angen y claf; neu
  - iv** pan fo angen meddyginiaeth mewn fformiwleiddiad ar y claf, nad yw wedi cael ei nodi mewn trwydded berthnasol.
- b** Neu pan na fydd meddyginiaeth drwyddedig addas a fyddai'n bodloni angen y claf, ar

gael. Gallai hyn godi, er enghraifft, pan geir prinder dros dro o ran y cyflenwad; neu

- c** Pan fo'r gweithgarwch presgripsiynu yn rhan o brosiect ymchwil a gymeradwywyd mewn ffordd gywir.

**70** Wrth bresgripsiynu meddyginiaeth ddidrwydded, rhaid i chi:

- a** deimlo'n fodlon bod tystiolaeth neu brofiad digonol yn bodoli o weithgarwch defnyddio'r feddyginiaeth er mwyn dangos ei diogelwch a'i heffeithiolrwydd
- b** cymryd cyfrifoldeb dros bresgripsiynu'r feddyginiaeth a thros oruchwylio gofal y claf, eu trefniadau monitro ac unrhyw driniaeth ddilynol, neu sicrhau bod trefniadau yn cael eu gwneud i feddyg addas arall wneud hynny
- c** cadw cofnod eglur, manwl a darllenadwy o'r holl feddyginiaethau a bresgripsiynir a phan na fyddwch yn dilyn arfer cyffredin, eich rhesymau dros bresgripsiynu meddyginiaeth ddidrwydded.

### Gwybodaeth i gleifion am y drwydded ar gyfer eu meddyginiaethau

**71** Rhaid i chi roi gwybodaeth ddigonol i gleifion (neu eu rhieni neu eu gofalwyr) ynghylch y meddyginiaethau yr ydych yn bwriadu eu presgripsiynu, er mwyn eu galluogi i wneud penderfyniad gwybodus.

**72** Defnyddir rhai meddyginiaethau y tu hwnt i amodau eu trwydded yn rheolaidd, er enghraifft, wrth drin plant. Mewn argyfyngau neu pan na fydd triniaeth amgen realistig yn bodoli, a phan fo gwybodaeth o'r fath yn debygol o beri gofid, efallai na fydd yn ymarferol neu'n angenrheidiol tynnu sylw at y drwydded. Mewn achosion eraill, lle y caiff presgripsiynu meddyginiaethau

<sup>26</sup> Ni allwn ragweld pob achos lle gallai fod angen presgripsiynu meddyginiaeth heb ei thrwyddedu i ddiwallu anghenion asesedig claf. Os oes gennych amheuan, ymgynghorwch â'r MHRA ([www.mhra.gov.uk](http://www.mhra.gov.uk)) neu gofynnwch am gyngor cyfreithiol.

didrwydded ei gefnogi gan ganllawiau clinigol awdurdodol, efallai y bydd yn ddigonol rhoi disgrifiad cyffredinol o'r rheswm dros y ffaith nad yw'r feddyginiaeth yn drwyddedig ar gyfer y defnydd arfaethedig neu boblogaeth y cleifion.<sup>27</sup> Rhaid i chi ateb cwestiynau a ofynnir gan gleifion (neu eu rhieni neu eu gofalwyr) ynghylch meddyginiaethau mewn ffordd lawn a gonest.

- 73** Os ydych yn bwriadu presgripsiynu meddyginiaethau didrwydded mewn achosion anghyffredin neu pan fo dewisiadau trwyddedig amgen addas ar gael, dylech esbonio hyn i'r claf, a'r rhesymau dros wneud hynny.
- 74** Dylech fod yn ofalus wrth ddefnyddio dyfeisiau meddygol at ddibenion na chawsant eu bwriadu i'w defnyddio ar eu cyfer.

## Meddyginiaeth chwaraeon

---

- 75** Ni ddylech bresgripsiynu neu gynllwynio i ddarparu meddyginiaethau neu driniaeth gyda'r bwriad o wella perfformiad unigolyn ym maes chwaraeon mewn ffordd amhriodol. Nid yw hyn yn eich atal rhag darparu unrhyw ofal neu driniaeth pan mai'ch nod yw diogelu neu wella iechyd y claf.

---

<sup>27</sup> Gallai'r taflenni Meddyginiaethau i Blant ynghylch meddyginiaethau didrwydded a gynhyrchwyd gan y Coleg Brenhinol Pediatreg a Phwyllgor Sefydlog Grŵp Fferyllwyr Pediatreg ac Iechyd Plant/Babanod newyddenedigol fod o gymorth wrth esbonio i blant a rhieni pam bod arfer o'r fath yn gyffredin wrth ofalu am blant. Mae Cymdeithas Poen Prydain yn cyhoeddi *Using medicines beyond licence: Information for patients*.